

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Alcohol Treatment Wales Ltd

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Alcohol Treatment Wales Limited fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Alcohol Treatment Wales yn cynnig triniaethau wedi'u teilwra i gleifion sy'n oedolion sy'n gaeth i sylweddau, gan gynnwys alcohol neu opioidau, neu sydd â dibyniaeth gemegol arnynt.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r meddygon rhagnodi ar 26 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion a'r staff. Gwnaethom ofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nid oes adeilad ffisegol i'w gynnal a'i gadw ar gyfer Alcohol Treatment Wales. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o swyddfa, ac nid oes angen i'r cleifion fynd yno yn y cnawd. O ganlyniad, nid ystyriwyd addasrwydd yr amgylchedd yn ystod y gwiriad ansawdd hwn.

Mae'r cleifion yn defnyddio'r gwasanaeth dros y ffôn neu drwy ffurflen ymholiad ar-lein ar wefan y gwasanaeth yn gyntaf. Caiff pob claf y mae angen gwasanaethau wyneb yn wyneb arno yn ei gyfeiriad cartref neu mewn canolfan adsefydlu ei sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19, ac mae'n ofynnol iddo hunanynysu cyn ei apwyntiad. Mae pob claf yn cael sgriniad ac asesiad risg manwl drwy ¹alwadau fideo² cyn unrhyw ymyriad clinigol.

Cadarnhaodd y rheolwr fod y gwasanaeth wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisiau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi cyfredol ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r ffordd y caiff COVID-19 ei reoli a chaiff y staff wybod am unrhyw ddiweddariadau drwy e-bost a chyfarfodydd tîm.

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi datblygu ei ganllawiau ei hun i'w dilyn pe bai angen i'r staff hunanynysu o ganlyniad i COVID-19. Roedd y staff hefyd wedi cael asesiad risg COVID-19

¹ Ap cydweithio yw **Microsoft Teams**, sy'n helpu'r tîm i gadw'n drefnus a chael sgysiau.

² Ap negeseua gwib aml-lwyfan yw **WhatsApp**, sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideo a sain am ddim.

manwl³ er mwyn asesu'r risgiau iddyn nhw yn bersonol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro bob wythnos. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cadarnhau lefelau stoc gyda'r staff yn ystod eu cyfarfodydd tîm wythnosol, a gaiff eu cynnal dros Microsoft Teams.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19, nac unrhyw glefydau heintus eraill, ymysg y cleifion.

Cawsom wybod bod y cleifion a'r staff wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd. Mae'r staff yn cael diweddariadau wythnosol gan un o'r cyfarwyddwyr clinigol (sef yr unigolyn cyfrifol) drwy Microsoft Teams. Mae'r staff yn sicrhau bod pob claf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf fel rhan o'i asesiad a'i sgriniad. Mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y staff a'r cleifion wedi sicrhau bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddo ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Gwelsom fod gan y gwasanaeth arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolwydd clir.

Rhoddyd copi o'r datganiad o ddiben i ni a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiâu a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y gwasanaeth, megis y canlynol: gweithio ar eich pen eich hun, hunanynysu, ymweld â chartrefi yn ddiogel a

³Datblygwyd yr Adnodd Asesu Risg er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.

Rydym am eich helpu i ddeall a allech o bosibl wynebu mwy o risg, a'ch helpu chi a'ch rheolwr llinell i ddewis y camau gweithredu sy'n addas i chi yn seiliedig ar eich lefel risg.'

pholisi atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod y polisiâu hyn wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Roedd y dyddiad adolygu wedi'i nodi ar y polisiâu a'r gweithdrefnau a/neu roeddent yn dilyn proses rheoli fersiynau.

Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw aelodau o'r staff i ffwrdd yn sâl ar hyn o bryd ac nad oes unrhyw swyddi gwag yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Rhodddwyd adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011⁴. Roedd yr adroddiad yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y caiff ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ei reoli a'i asesu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau. Cafodd yr adroddiad hwn ei rannu a'i drafod â'r rheolwr cofrestredig, yn ogystal â chyfarwyddwyr Alcohol Treatment Wales. Dangosodd yr adroddiad ansawdd diweddaraf fod yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn gadarnhaol. Cadarnhaodd un aelod o'r staff, yr ymgynghorwyd â hi fel rhan o broses asesu ansawdd yr unigolyn cyfrifol, ei bod yn fodlon ar drefniadau llywodraethu, diogelwch a thryloywder y sefydliad. Hefyd, cadarnhaodd ei bod wedi cael asesiad risg COVID-19 a'i bod yn teimlo ei bod wedi'i diogelu'n ddigonol yn erbyn risgiau COVID-19 wrth roi cymorth i geifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm clinigol a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio o 70%. Mae'r gyfradd gydymffurfio gymharol isel o ganlyniad i newidiadau i'r ffyrdd o weithio ac anawsterau o ran sicrhau gwasanaethau darparwyr hyfforddiant oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Dylai'r gwasanaeth ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risg nad yw'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfredol. Dylai hyn gynnwys parhau i chwilio am ddarparwyr mewnol neu allanol i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb pan asesir bod y dull asesu hwn yn ddiogel ac yn briodol. Os na fydd hyn yn bosibl, dylai'r gwasanaeth ystyried a oes modd darparu'r hyfforddiant drwy ddulliau digidol, megis gweminarau⁵, fideogynadledda neu raglenni e-ddysgu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bydd unrhyw hyfforddiant gorfodol y mae angen i'r staff ei adnewyddu yn cael ei ddiweddarau'n ddi-oed.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diwygiedig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddariad arall i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/734/body/made/welsh>

⁵ Digwyddiad rhithwir a gaiff ei gynnal a'i ddarlledu gan sefydliad yw gweminar. Mae'n cynnig dull cyfathrebu unffordd i gyfranogwyr, ac fe'i elwir hefyd yn weddarllediad, digwyddiad ar-lein, a seminar ar y we. Mae'r siaradwr yn dangos cyflwyniad, sioe sleidiau, dogfennau neu elfen weledol arall er mwyn rhannu gwybodaeth newydd. Y nod yw addysgu cyfranogwyr am bynciau newydd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Alcohol Treatment Wales

Dyddiad y gweithgarwch: 26 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diwygiedig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddariad arall i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 20(2)(a)	<p>Penodi Cynorthwydd Clerigol newydd i'r tîm, y bydd ei swyddogaeth weinyddol bellach yn cael ei hymgorffori'n rheolaidd i gefnogi'r Cyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldeb am gofnodi a chadarnhau cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Gorfodol.</p> <p>Mae'r holl Hyfforddiant Gorfodol sydd heb ei gwblhau ar gael drwy ein deunydd cwrs ar-lein.</p> <p>Rydym yn bwriadu sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth o fwy na</p>	Dr Jake Hard ac Adele Carini	Erbyn 26 Ebrill 2021 fan bellaf

		90% ar gyfer y tîm cyfan, gan gynnwys Cyfarwyddwyr.	
--	--	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Dr Jake Hard

Dyddiad: 10/02/2021